# Enghraifft Chwaraeon RhCT [ENW'R CLWB] Polisi Diogelu 2025/26

1. Cyflwyniad
Mae [Mewnosod Enw Llawn y Clwb] yn deall bod ganddo ddyletswydd gofal yn ogystal â chyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i ddiogelu lles pob plentyn sydd wedi'i ymddiried yn ein gofal. Rydyn wedi ein hymrwymo i weithio i ddarparu amgylchedd diogel a phrofiad pleserus i'n holl aelodau. Rydyn ni'n cydnabod bod gan bob plentyn hawl i gael ei amddiffyn, a rhaid inni ystyried anghenion y rhai a allai fod yn arbennig o agored i niwed. Diffinnir plentyn fel person o dan 18 oed.

2. Nodau ac Egwyddorion
Nod y polisi yma yw:
- Sicrhau mai lles plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf, a rhaid iddi fod felly bob amser.
- Mae'r clwb yn hyrwyddo amgylchedd hwyliog, diogel a chynhwysol. Mae gan bob plentyn (waeth beth fo'u hoedran, tarddiad ethnig, rhyw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, gallu neu anabledd) hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin.
- Sicrhau bod pob aelod a gwirfoddolwr yn effro i bolisïau a gweithdrefnau diogelu/lles y clwb.
- Dylid cymryd pob amheuaeth a honiad o gam-drin neu arfer gwael o ddifrif ac ymateb iddyn nhw'n brydlon ac yn briodol.
- Cyfrifoldeb pawb yw amddiffyn lles y plant bob amser. Cyfrifoldeb yr arbenigwyr amddiffyn plant yw penderfynu a yw cam-drin wedi digwydd ai peidio, ond cyfrifoldeb pawb yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

3. Polisi, Gweithdrefnau ac Arferion y Clwb
Mae [Mewnosod Enw Llawn y Clwb] yn deall bod ganddo rôl bwysig i'w chwarae wrth ddiogelu lles plant drwy eu hamddiffyn rhag pob math o gam-drin, gan gynnwys niwed corfforol, rhywiol neu emosiynol, ac esgeulustod neu fwlio. Yn y rôl yma, byddwn ni'n darparu diogelwch a gwarchodaeth briodol i blant a phobl ifainc tra byddan nhw yng ngofal y clwb ac yn dilyn y polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion angenrheidiol yn unol â chyfarwyddyd [mewnosod y Corff Llywodraethu perthnasol/cynghreiriau/gofynion eraill sy'n benodol i'ch camp a'ch ardal].

Mae gyda ni Swyddog Diogelu Clwb penodedig i gynorthwyo gyda'n cyfrifoldebau.

4. Recriwtio a Hyfforddiant

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob unigolyn sy'n cael ei recriwtio a'i benodi yn cael ei wirio a'i hyfforddi'n briodol ar gyfer y swydd yn y clwb.

- Byddwn ni'n gwneud pob hyfforddwr, swyddog a gwirfoddolwr yn effro i'r potensial ar gyfer datblygu perthynas o ymddiriedaeth rhyngddyn nhw eu hunain a phobl ifainc a phobl sy'n agored i niwed, a'r canlyniadau sy'n gynhenid os bydd camdriniaeth ddamweiniol neu fwriadol o'r berthynas honno.
- Byddwn ni'n defnyddio proses ymgeisio addas gan gynnwys defnyddio disgrifiad rôl, cyfweliad a geirdaon cyn penodi.
- Gwneud cais am wiriad DBS Manwl (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar gyfer pob hyfforddwr, gwirfoddolwr ac aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant ac/neu oedolion agored i niwed trwy eich Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Os oes pryderon ynghylch unigolyn neu wiriad DBS yna ceisiwch gyngor gan ein Corff Llywodraethu Cenedlaethol.
- Caiff hyfforddiant Cymorth Cyntaf a Diogelu ei ddarparu i bob person gofynnol sy'n gweithio gyda phlant. Bydd yr hyfforddiant yma'n caniatáu i wirfoddolwyr ymateb yn wybodus i unrhyw faterion amddiffyn plant yn ogystal â bod yn effro i unrhyw bolisïau a gweithdrefnau, a glynu wrthyn nhw.
- Rhaid i aelodau lynu wrth god ymddygiad y clwb a rhoi hawliau pleidleisio iddyn nhw yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a/neu gyfarfodydd eraill y clwb pan fo angen.
- Bydd pob aelod iau ac oedolion sy'n chwarae yn cael eu cofrestru i'r [mewnosod manylion y Corff Llywodraethu Cenedlaethol a/neu'r gynghrair] i sicrhau bod y clwb a'r unigolyn wedi'u cynnwys trwy'r yswiriant a'r polisïau gofynnol. Noder y bydd gan [mewnosod manylion y Corff Llywodraethu Cenedlaethol a/neu'r gynghrair] fynediad at fanylion y clwb ac unigolion yn ystod y broses gofrestru yma.

5. Rôl y Swyddog Lles/Diogelu

Mae Swyddog Lles/Diogelu'r Clwb yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu ein haelodau. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Cyfrifol am nodi, rheoli ac adrodd ar unrhyw bryderon diogelu, gan sicrhau lles holl aelodau'r clwb.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu lesiant aelodau'r Clwb.
- Sicrhau bod holl aelodau'r Clwb yn effro i bolisïau a gweithdrefnau diogelu.
- Darparu cyngor ac arweiniad i aelodau, gwirfoddolwyr a hyfforddwyr ar faterion diogelu.
- Sicrhau bod unrhyw honiadau neu bryderon yn cael eu trin yn briodol, yn gyfrinachol, ac yn unol â chanllawiau cyfreithiol a moesegol.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r rhai yr effeithir arnyn nhw gan bryderon diogelu, gan gynnwys cyfeirio at asiantaethau allanol lle bo angen.
- Sicrhau bod gwiriadau DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) priodol yn cael eu cynnal ar gyfer hyfforddwyr a gwirfoddolwyr a chadw cofnodion yn gyfredol.

6. Rhoi Gwybod am Bryderon
Cyfrifoldeb pawb yw diogelu plant. Os ydych chi'n poeni am blentyn, rhaid i chi roi gwybod am eich pryderon; dylai hyn fod i'n Swyddog Lles/Diogelu Clwb.
Os yw'r pryder o natur fwy difrifol, megis cam-drin posibl, lle bo modd, rhowch wybod i Swyddog Lles/Diogelu'r Clwb, a chysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu ar unwaith. Mae lles y plentyn yn hollbwysig, gwnewch yn siŵr eu bod yn ddiogel ac os oes angen triniaeth feddygol, ewch â nhw i'r ysbyty neu ffoniwch ambiwlans a dywedwch wrth y meddyg fod hwn yn bryder amddiffyn plant.
Os nad oes modd i chi gysylltu â Swyddog Lles/Diogelu ein Clwb neu mewn sefyllfa lle mae'r mater yn amlwg yn ddifrifol, cysylltwch â Charfan Diogelu'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol, yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, neu'r NSPCC (Llinell Gymorth 24 Awr: 0808 800 5000).

7. Cod Ymddygiad
Rydyn ni wedi mabwysiadu ein hymrwymiad Corff Llywodraethu Cenedlaethol i hyrwyddo arfer ac ymddygiad da. Mae cod ymddygiad ar wahân ar gael i chwaraewyr, rheini a gwirfoddolwyr sy'n rhan o ganllawiau [mewnosod y Corff Llywodraethu Cenedlaethol perthnasol]. Mae modd delio ag achosion o dorri hyn drwy bwyllgor y clwb neu ymhellach drwy [mewnosod y Corff Llywodraethu Cenedlaethol] os oes angen.
Mae disgwyl i holl aelodau'r Clwb lynu wrth y cod ymddygiad canlynol:

- Trin pob aelod â pharch, tegwch ac urddas.
- Peidio ag ymwneud ag unrhyw fath o fwlio, aflonyddu nac ymddygiad gwahaniaethol.
- Byddwch yn ofalus o gyswllt corfforol, gan sicrhau ei fod yn briodol ac nad yw'n ymledol.
- Annog chwaraeon da a gwaith tîm ar y cae ac oddi arno.
- Adrodd am unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu lesiant unrhyw unigolyn i'r Swyddog Lles heb oedi.

8. Gwrth-fwlio, Gwrth-wahaniaethu a Chydraddoldeb

- Ni dderbynnir bwlio o unrhyw fath yn ein clwb a byddwn ni'n cydweithio i sicrhau bod pob math o fwlio yn cael ei drin. Os bydd bwlio'n digwydd, dylai bod modd i chwaraewyr a/neu rieni/warcheidwaid rannu eu pryderon a chael sicrwydd y bydd bwlio'n cael ei drin o ddifrif ac yn gyflym.
- Mae'r clwb wedi ymrwymo i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn Corffbel. Ni fydd gwahaniaethu ar sail oedran, hil, crefydd, anabledd, rhyw, na chyfeiriadedd rhywiol yn cael ei oddef. Dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r Swyddog Lles am unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu, neu ymddygiad amhriodol.

9. Cyfrinachedd

Bydd yr holl wybodaeth diogelu yn cael ei thrin gyda'r cyfrinachedd mwyaf. Dim ond gyda'r rhai sydd angen gwybod yn uniongyrchol y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, gan gynnwys asiantaethau allanol perthnasol. Bydd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n ddiogel ac yn unol â chyfreithiau diogelu data.

10. Adolygu'r Polisi

Bydd pwyllgor y clwb yn adolygu'r polisi diogelu yma yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol â deddfwriaeth a safonau gorau cyfredol. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu i holl aelodau a gwirfoddolwyr y Clwb.
Mae [Enw'r Clwb] drwy hyn yn mabwysiadu ac yn derbyn y polisi yma.
Cafodd y polisi yma ei fabwysiadu yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar: [Nodwch y Dyddiad]

Llofnodion

Cadeirydd: ______________________________ Dyddiad: ___________________

Swyddog Diogelu/Lles:____________________ Dyddiad: ___________________

Swyddog Lles/Diogelu'r Clwb
[Enw a manylion cyswllt]

Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau Defnyddiol

Am ragor o wybodaeth ynghylch Polisi Diogelu [mewnosodwch y Corff Llywodraethu Cenedlaethol] neu ganllawiau diogelu eraill, cysylltwch â'r canlynol neu ewch i'r canlynol:

Cyswllt y Corff Llywodraethu Diogelu Cenedlaethol
[mewnosod dolen, enw a manylion cyswllt]

Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Llinell gymorth 24 awr: 0808 800 5000
Beth yw diogelu mewn chwaraeon? | NSPCC Learning